


# Newyddlen

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn



Awst 2014

Rhifyn 4

### Cyflwyniad

Croeso i bedwerydd rhifyn newyddlen diweddarau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ers Rhifyn 3 cafodd llawer o gynnydd ei wneud ar y Cynllun Datblygu Lleol a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Cynllun Adnau yn gynnar yn 2015. Mae'r rhifyn hwn o'r newyddlen yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pynciau canlynol:

- Cytundeb Cyflawni
- Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar yr Hoff Strategaeth
- Cynnydd ar Safleoedd Posib
- Cynllun Adnau – Ymgynghoriad Cyhoeddus
- Astudiaethau Cefndir
- Cyflwyno ac Archwilio
- Adroddiad yr Arolygydd ar y CDLI ar y Cyd
- Mabwysiadu

Cyflwyniad	1
Cytundeb Cyflawni	1
Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar yr Hoff Strategaeth	2
Safleoedd Posib	2
Y Cynllun Adnau	3
Diweddu Astudiaethau	3 - 4
Beth sy' digwydd nesaf?	4
Cysylltwch â ni	4

### Cytundeb Cyflawni

Mae'r Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer ei baratoi. O ran y broses paratoi, mae'r Cynghorau wedi llithro yn ôl rhyw ychydig o safbwyt yr amserlen a gyhoeddwyd. Mae gwaith wedi hen ddechrau ar Gam 5, sy'n ymwneud ag Adnau statudol o gynigion ond bydd yr ymarfer Ymgynghori Cyhoeddus am 6 wythnos ar y Cynllun Adnau yn awr yn digwydd yn gynnar yn 2015, nid yn ystod yr haf 2014 fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni. O ganlyniad, bydd angen diwygio'r Cytundeb Cyflawni i adlewyrchu'r newid hwn yn yr amserlen. **Mae'r newyddlen hwn yn fod o hysbysu rhan-ddeiliaid am y newid yn yr amserlen.**



Roedd yr Hoff Strategaeth, a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus, yn strategaeth lle'r oedd y pwyslais ar greu marchnad dai gytbwys trwy ddosbarthiad cymesur twf tai ar draws ardal y Cynllun. Hefyd, byddai amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth a ddiogelir a rhai newydd ar gael yn unol â hierarchaeth o drefi a phentreifi. Byddai hynny yn ehangu cyfleodd gan adlewyrchu cymeriad gwledig ardal y Cynllun ac ymateb i'r cyfleoedd trawsnewidiol arfaethedig sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd a phrosiectau seilwaith mawr eraill.



Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o chwe wythnos yn ystod mis Mai a Mehefin 2013, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd gwybodaeth am yr Hoff Strategaeth a'r dogfenau ategol ar gael ar wefan y Cynghorau, prif swyddfeydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus. Cyn dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus ymwelodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd â grwpiau o randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun.

At ei gilydd, gwnaeth 132 o ymatebwyr 365 o sylwadau ar yr Hoff Strategaeth. Roedd barn amrywiol yngylch y lefel ddewisol o dwf tai, gydag ymatebwyr naill ai yn ei gefnogi neu'n awgrymu lefel uwch neu is o dwf. Hefyd cynigwyd newidiadau i'r weledigaeth, amcanion y Cynllun a pholisiau strategol. Mae'r Cynghorau yn croesawu'r diddordeb a ddangoswyd yn y Cynllun a'r sylwadau adeiladol a wnaed. Mae'r sylwadau a dderbynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr Hoff Strategaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r Cynllun Adnau. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd hefyd yn gweithio gyda'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, swyddogion eraill a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r Cynllun Adnau.

## Safleoedd Posib

Yn dilyn y cam Galw am Safleoedd, a ddaeth i ben yn Hydref 2012, rhyddhaodd y Cynghorau Gofrestr o Safleoedd Posib yn rhestru'r holl safleoedd a gyflwynwyd gan unrhyw un oedd â diddordeb mewn tir neu gan farn am ei ddyfodol, fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – y broses Galw am Safleoedd Posib. Mae'r Gofrestr Safleoedd Posib ar gael ar wefannau'r Cynghorau [www.gwynedd.gov.uk/csr](http://www.gwynedd.gov.uk/csr) neu [www.ynysmon.gov.uk/csr](http://www.ynysmon.gov.uk/csr). Ers i'r cyfnod Galw am Safleoedd ddod i ben, mae'r UPCC hefyd wedi bod yn nodi safleoedd eraill a gyflwynwyd gan bartiōn â diddordeb. Mae ffeil cyflwyno'n hwyr yn cofnodi gwybodaeth am y safleoedd hyn ac fe gafodd hwn ei gau yn Ebrill 2014. Ni fydd unrhyw safleoedd eraill yn cael eu hychwanegu at y ffeil cyflwyno'n hwyr.

Mae'r holl safleoedd a gyflwynwyd yn cael eu hasesu yn erbyn methodoleg i sicrhau bod tir a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn addas a chynaliadwy ar gyfer datblygu. Mae hyn yn cynnwys casglu ac asesu gwybodaeth gan wasanaethau o fewn y Cyngor a rhanddeiliaid allanol. Cafodd canlyniadau'r broses hidlo gyntaf eu rhyddhau ym Mhapur Testun 1 ym Mai 2013. Bydd canlyniadau'r asesiad o'r holl safleoedd yn cael eu rhyddhau yn fersiwn wedi'i diweddu o Bapur Testun 1 yn gynnar yn 2015, i gyd-fynd â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau. Bydd y Cynllun hwn yn nodi'r tir i'w ddynodi a/neu i'w gynnwys o fewn ffiniau datblygiad ar fapiau cynigion.

**Os yw eich safle yn llwyddiannus,** bydd yn cael ei ddangos yn y Cynllun Adnau fel "dynodiad" neu efallai ei nodi fel un sy'n addas at ddibenion datblygu mewn rhyw ffordd arall, e.e. cynnwys o fewn ffin ddatblygu. Os yw hyn yn wir efallai y byddwch yn dymuno cofrestru eich cefnogaeth yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus y Cynllun Adnau.

**Os yw eich safle yn afluwyddiannus,** ac nad yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adnau a'ch bod yn dymuno gwrthwynebu eithrio eich safle, cewch ddweud wrthym yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau. Byddwch yn gallu ailgyflwyno eich safle, neu gynnig un newydd ar y cam hwn. Bydd Cofrestr Safleoedd Amgen sy'n cynnwys pob safle a gynnigir ar gyfer ei gynnwys, ei newid a/neu ei ddileu o'r Cynllun Adnau yn destun cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus o chwe wythnos, cyn gynted â phosibl ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus y Cynllun Adnau.

**Bydd y penderfyniad terfynol yngylch pa safleoedd sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn aros gydag Arolygydd Cynllunio annibynnol - nid y Cynghorau.**



Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnwl ar y Cynllun Adnau yn gynnar yn 2015. Bydd y dyddiad yn cael ei hysbysebu'n eang yn nes at yr amser. Mae'r cam hwn yn rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd a phartion eraill â diddordeb gyflwyno sylwadau ffurfiol dros gyfnod o chwe wythnos.

Rhaid i sylwadau ymwneud â chadernid y cynllun, a bydd manylion y deg prawf cadernid ar gael.

Pan fo'r Cynllun Adnau yn cael ei ryddhau ar gyfer ymgynghori, bydd ar gael i'w weld ar wefan y Cynghorau, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol a phrif swyddfeydd y ddau Gyngor. Hefyd, bydd y Cynghorau yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau 'galw heibio' cyhoeddus mewn lleoliadau strategol ar draws ardal y Cynllun.

### Beth yw'r Cynllun Adnau?

- Gweledigaeth, amcanion a strategaeth ar gyfer ardal y Cynllun
- Polisiau strategol a manwl
- Y broses fonitro
- Map cynigion a chyfyngiadau, sy'n dangos y dyraniadau a dynodiadau ar sail ddaearyddol.

### Diweddar ar Astudiaethau

Mae'r astudiaethau canlynol wedi cael eu cwblhau ers yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Hoff Strategaeth, neu maent ar y gweill ar hyn o bryd:

#### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Bydd y Cynghorau yn ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Adnau CDLI ar y Cyd er mwyn sicrhau nad yw safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd (safleoedd Natura 2000) yn cael eu heffeithio. Comisiynwyd Enfusion i gynorthwyo'r UPCC gyda'r broses.

#### Asesiad Cynaliadwyedd (AC) / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Bydd y Cynghorau yn parhau i gynnwl Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol integredig o'r Cynllun. Comisiynwyd Enfusion i gynorthwyo'r UPCC i ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â'r broses. Ar hyn o bryd rydym yn diweddu'r wybodaeth llinell sylfaen ac yn dylanwadu ar yr asesiad o safleoedd posib a llunio polisiau'r Cynllun.

#### Asesu'r Effaith ar lechyd


Mae Asesiad o'r Effaith ar lechyd yn cael ei gynnwl i asesu unrhyw effaith posibl y Cynllun Adnau o ran iechyd a lles pobl, er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl wella eu hiechyd.

#### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gan y Cynghorau ddyletswydd statudol i ystyried yn ofalus anghenion a gofynion y gymuned sy'n cael eu heffeithio gan bolisiau a gweithdrefnau. Cynhelir Asesiad o Effaith y Cynllun Adnau ar Gydraddoldeb, er mwyn asesu unrhyw effaith y gall ei gael ar hil, rhyw, rhywioldeb, anabledd, crefydd, cred/ ddiffyg cred, oedran a'r iaith Gymraeg.

#### Pryd mae'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus?

Nid yw union ddyddiadau y cyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos yn hysbys ar hyn o bryd, ond bydd yn digwydd yn gynnar yn 2015. Bydd manylion llawn yr ymgynghoriad yn cael cyhoeddusrwydd eang yn nes at yr amser, drwy hysbyseb yn y papurau newydd lleol a llythyrau at bawb ar y gronfa ddata o randdeiliaid. Os ydych ar y gronfa ddata, byddwch yn derbyn llythyr trwy'r post neu trwy e-bost.



#### Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg

Bydd y Cynghorau yn parhau i gynnwl AEG i hysbysu'r Asesiad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol integredig o'r Cynllun.

#### Astudiaeth Tai a'r iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad a baratowyd gan Uned Ymchwil a Dadansoddi Gwynedd ar ran y ddau Gyngor yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion i 'Arolwg Tai a'r iaith Gymraeg Gwynedd ac Ynys Môn' a gynhalwyd rhwng Medi a Tachwedd 2013. Mae'n ffurio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r gwaith hwn yn dilyn dadansoddiad o dueddiadau yn seiliedig ar Gyfrifiadau 2001 a 2011, yn ogystal â dadansoddiad o dystiolaeth berthnasol arall o wahanol ffynonellau.

#### Astudiaeth Sensitifwydd a Chapasiti Tirwedd

Comisiynwyd Gillessies LLP gan y Cynghorau (ynghyd ag Aw-durdod Parc Cenedlaethol Eryri) i ddarparu asesiad strategol o sensitifwydd a chapasiti cymharol yr ardaloedd cymeriad tirwedd unigol o fewn ardal y Cynllun ar gyfer ystod o ddatblygiadau gwahanol. Mae'r Astudiaeth hefyd yn darparu cyfres o strategaethau tirwedd sy'n rhoi syniad ynglŷn â ble y gallai datblygiadau penodol gael eu leoli orau, a syniad o raddfa briodol o ddatblygiad, yn seiliedig ar drothwyon y capasiti mwyaf. Ei amcan olaf yw darparu canllawiau lleoliad a dylunio sy'n berthnasol i bob un o'r gwahanol fathau o ddatblygiadau ac ystyried methodoleg ar gyfer gwerthusiad tirwedd a gwelodol cronus o'r gwahanol fathau o ddatblygiad.



### Safleoedd Bywyd Gwylt (Gwynedd) - Cyfnod 2

Comisiynwyd Heather Scott, Ecolegydd Ymgynghorol, i adolygu safleoedd bywyd gwylt posibl yng Ngwynedd er mwyn cyngori a ydynt yn cydymffurfio â'r mein prawf.

### Amwynder Preswyl a Thyrbinau Gwynt a Pheilonau

Comisiynwyd Gillespies LLP gan y Cyngorau i gyngori ar bellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau.

### Astudiaeth Capasiti Trefol o'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd mewn ymgynghoriaid ag unedau eraill o fewn y ddau Gyngor wedi gwneud astudiaeth i geisio rhagweld faint o unedau tai a allai gael eu hyrwyddo yng Nghanolfannau Gwasanaeth Lleol ardal y Cynllun. Edrychwyd ar leiniau mewnlenwi, adeiladau gwag, ac ar wybodaeth hanesyddol am wneud defnydd o lefydd uwchben siopau a newid defnydd adeiladau i ddefnydd preswyl.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### CYFLWYNO AC ARCHWILIO

Ar ôl ymgynghori ar y Cynllun Adnau, bydd y Cyngorau yn ei gyflwyno ynghyd â'r adroddiad cynaladwyedd, y datganiad ymgynghori a'r holl ddogfennau ategol i'r Arolygydd Cynllunio a fydd yn asesu'r Cynllun ar sail cadernid. Ar y cam hwn, bydd yr Arolygydd yn gwahodd rhai a wnaeth sylwadau ar y Cynllun Adnau er mwyn cael trafodaeth am y materion a godwyd mewn gwrandawiadau ar feisydd penodol. Ochr yn ochr a hynny fe fydd gan yr Arolygydd fynediad i'r sylwadau a gafodd eu cyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnodau ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau a'r safleoedd amgen. Rhagwelir y byddwn yn cyflwyno'r Cynllun a'i ddogfennau ategol yn mis Rhagfyr 2015 a bydd yr Archwiliad yn cychwyn ym mis Ebrill 2016.

### ADRODDIAD AROLYGYDD AR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad rhwymol a fydd yn nodi unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r Cynllun. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd o fewn 4 wythnos o'i dderbyn. Rhagwelir y byddwn yn derbyn yr adroddiad ym mis Medi 2016.

### MABWYSIADU

O fewn 8 wythnos o dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, bydd Datganiad Mabwysiadu yn cael ei baratoi i ddangos bod y Cyngorau wedi mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol. Bydd y Cynllun wedyn yn dod yn gynllun statudol ar gyfer ardal y Cynllun, a bydd yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## Hoffech mwy o wybodaeth?

### CYSYLLTWCH Â NI

Os ydych angen rhagor o wybodaeth neu os hoffech edrych ar unrhyw un o'r ddogfennau'r Cynllun sydd wedi'u cwblhau, os gwellwch yn dda ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio ar y Cyd gan ddefnyddio'r manylion isod:

#### Ewch i'n gwefan:

[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) neu [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) a chliciwch ar Amgylchedd a Chynllunio neu Cynllunio a Gwastraff (yn dibynnu pa wefan fyddwch yn ei ddefnyddio), yna Polisi Cynllunio

**E-bost:** [polisicynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:polisicynllunio@gwynedd.gov.uk)

**Postio i:** Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd,  
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor  
Ffordd Gwynedd  
Bangor. LL57 1DT

**Ffôn:** (01766) 770100 / (01286) 685003

Os nad ydych ar ein cronaftada, rhowch eich manylion cyswllt i ni trwy ddefnyddio'r manylion uchod.